Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol 3 a 4 ar y Bil Cynllunio a Seilwaith

Medi 2025

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mawrth 2025. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**2.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil gerbron y Senedd ar 26 Mawrth 2025. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ("Memorandwm Rhif 2") ar 15 Mai 2025. Mae Adroddiad y Pwyllgor ("yr Adroddiad cyntaf") ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol hyn ar gael ar wefan y Senedd (https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/cr-ld17278-cy.pdf).

**3.** Gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach ("Memorandwm Rhif 3" a "Memorandwm Rhif 4") ar 17 Mehefin a 7 Awst 2025, yn y drefn honno.

## Amcanion polisi

**4.** Yr amcanion polisi y mae Llywodraeth y DU wedi'u nodi ar gyfer y Bil yw cyflymu a symleiddio'r broses o ddarparu cartrefi newydd a seilwaith critigol, cefnogi gwaith i gyrraedd cerrig milltir Cynllun Newid y llywodraeth i adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi diogel a gweddus yn Lloegr a chyflymu 150 o benderfyniadau cynllunio ar brosiectau seilwaith economaidd mawr erbyn diwedd y Senedd hon yn San Steffan. Mae hefyd yn ceisio cefnogi gwaith i gyrraedd targed Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU drwy sicrhau bod prosiectau ynni glân yn cael eu hadeiladu cyn gynted â phosibl. Rhoddir rhagor o fanylion yn Adroddiad cyntaf y Pwyllgor ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil.

### Gohebiaeth oddi wrth randdeiliaid a'r Ysgrifennydd Cabinet

**5.** Cafodd y Pwyllgor ohebiaeth oddi wrth Cyswllt Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, ac RSPB Cymru, mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Cododd y sefydliadau hyn nifer o bryderon, a nodir yn Adroddiad cyntaf y Pwyllgor.

**6.** Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor ar 11 Awst ynghylch sawl mater a godwyd yn Adroddiad cyntaf y Pwyllgor. Mae'r ohebiaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn.

**7.** Ar 5 Medi 2025, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor er mwyn ymateb i faterion a godwyd yn ei adroddiad cyntaf, ac yn benodol felly argaeledd canllawiau gan Lywodraeth y DU. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Yn yr adroddiad hwnnw, fe wnaethoch chi fynegi pryder am y diwygiadau arfaethedig i'r broses cyn ymgeisio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) ac roeddech yn teimlo ei bod yn anodd llunio barn gan nad ydych wedi gweld canllawiau Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU yn cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd ar symleiddio cynllunio seilwaith. Mae hyn yn cynnwys canllawiau arfaethedig ar ymgynghori ac ymgysylltu ar ôl dileu gofynion ymgynghori statudol cyn ymgeisio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol."*

## Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3)

**8.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y gwelliannau a ganlyn:

- Gov 93 sy'n diwygio cymal 31 (cymal 28 gynt) "Procedure for certain orders and schemes";
- Gov 94 sy'n diwygio cymal 41 (cymal 38 gynt) "Deemed consent under marine licence";
- Gov 95 sy'n diwygio cymal 41, ac sy'n ganlyniadol i Gov 97;

- Gov 96 sy'n diwygio cymal 41, ac sy'n ganlyniadol i Gov 97;
- Gov 97 sy'n diwygio cymal 41, ac sy'n ganlyniadol i Gov 94; a
- Gov 98 sy'n diwygio cymal 41, ac sy'n ganlyniadol i Gov 97.

**9.** Mae gwelliant Gov 93 yn diwygio cymal 31 (cymal 28 gynt) "Procedure for certain orders and schemes". Mae gwelliant Gov 93 yn ymwneud ag adran 326 o Ddeddf Priffyrdd 1980, sy'n ymwneud â dirymu ac amrywio cynlluniau a gorchmynion o dan y Ddeddf. Roedd y diwygiad gwreiddiol yn caniatáu i orchmynion adran 10 (cefnffyrdd) ac adran 16 (ffyrdd arbennig) a chynlluniau 106(3) (codi pontydd dros ddyfroedd mordwyol neu dwneli odanynt) gael eu diwygio a'u dirymu drwy orchymyn neu gynllun dilynol. Cynigir darpariaeth ar wahân yng Nghymru o dan adran 2 o'r Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru).

**10.** Mae gwelliant Gov 93 yn newid y diwygiad gwreiddiol i sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn cael ei chadw ac yn benodol na fydd gwelliant Gov 93 yn effeithio ar y diwygiadau a gynigir yn y Bil Cymreig ar wahân.

**11.** Mae gwelliant Gov 94 yn diwygio cymal 41 "Deemed consent under marine licence". Mae paragraff 14 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi, fel y'i cyflwynwyd, fod cymal 41 (cymal 38 gynt) yn mewnosod adran newydd 19A yn Neddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 ac yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i gynnwys mewn gorchymyn o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd (a wneir o dan adrannau 1 neu 3 o'r Ddeddf honno) drwydded forol dybiedig o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sy'n awdurdodi'r gweithgareddau a bennir, a'r amodau y maent yn ddarostyngedig iddynt, yn y gorchymyn (gweler adran newydd 19A(1), isod).

**12.** Roedd adran newydd 19A(2) (fel y'i cyflwynwyd) yn rhagnodi (a) bod rhaid i'r gweithgaredd a gyflawnir o dan adran newydd 19A(1) fod yn un neu ragor o'r ardaloedd lle y gall trwydded forol dybiedig fod yn gymwys a bennir yn is-adran (3), neu (b) gweithgaredd y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer.

**13.** Roedd geiriad is-adran (3) yn creu ansicrwydd ynghylch sut y bwriedid i hyn gael ei gymhwyso ar gyfer y môr mawr a sut yr oedd hynny'n rhyngweithio â swyddogaethau Gweinidogion Cymru wrth roi trwyddedau morol.

**14.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn darparu bod gwelliant Gov 94 yn hepgor y testun yng nghymal 41 o'i ddechrau hyd at ddiwedd llinell 19 ar dudalen 55 o'r Bil (fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod y Pwyllgor Cyhoeddus) ac yn mewnosod testun newydd yn ei le. Rhoddir testun newydd yn lle is-adrannau (1) i (4) o adran newydd 19A a chyflwynir is-adran newydd (4A).

**15.** At hynny, mae effaith gwelliant Gov 94 yn diwygio cymal 94 a'r ddarpariaeth ar gyfer trwyddedau morol tybiedig mewn gorchmynion o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd fel na chaiff Gweinidogion Cymru ond awdurdodi gweithgaredd y maent yn gyfrifol amdano o dan y ddeddfwriaeth trwyddedu morol, ac mae’n gwneud yr un peth ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r diwygiadau arfaethedig i adran newydd 19A yn egluro mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu priodol, yw tybio trwydded forol yn nyfroedd môr mawr Cymru.

**16.** Dywed paragraff 29 o Femorandwm Rhif 3, “Yn yr LCM a osodwyd ar 26 Mawrth, nodais, er fy mod yn cefnogi'r ddarpariaeth i roi trwydded forol o dan gymal 38 (cymal 41 bellach), ceisiais sicrwydd gan Lywodraeth y DU nad oedd unrhyw ganlyniad anfwriadol yn rhanbarth y môr mawr. Mae'r gwelliant hwn yn rhoi eglurder ynghylch ar gyfer ble yn ddaearyddol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi trwydded forol dybiedig, ac mae'r gwelliant yn mynd i'r afael â'm pryderon. Felly, rwy'n cefnogi'r gwelliant.”

**17.** Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliannau Gov 95 i 98. Mae hynny ar y sail eu bod yn ganlyniadol i welliant Gov 94. Mae gwelliant Gov 97 yn diwygio adran newydd 19A(5) i ychwanegu diffiniad newydd o “the MCAA 2009” at yr adran honno. Mae gwelliant Gov 97 yn ganlyniadol i welliant Gov 94 sy'n cyfeirio at y talfyriad “MCAA 2009” yn adran newydd 19A(4A). Mae hefyd yn ychwanegu diffiniad o “marine licence”, sy'n derm a ddefnyddir drwy gydol adran newydd 19A ac sy'n ganlyniadol i welliant Gov 94.

## Barn yr Ysgrifennydd Cabinet

**18.** Mae paragraffau 28 i 30 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Cynllunio a Seilwaith:

> *“Gov 93*
>
> *28. Mae angen cynnwys y darpariaethau ar gyfer Cymru i helpu i fynd i'r afael â mater a nodwyd yn ystod proses y Bil. Yn y bôn, drwy ddileu'r gofyniad bod gorchmynion adran 10 a chynlluniau adran 16/106(3) yn cael eu gwneud drwy Offeryn Statudol, collodd Gweinidogion Cymru y gallu i'w diwygio a'u dirymu. Drwy ddiwygio adran 326, mae'r mater hwn wedi'i gywiro, ac mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r gallu i wneud hynny.*
>
> *Gov 94*
>
> *29. Yn yr LCM a osodwyd ar 26 Mawrth, nodais, er fy mod yn cefnogi'r ddarpariaeth i roi trwydded forol o dan gymal 38 (cymal 41 bellach), ceisiais*

*sicrwydd gan Lywodraeth y DU nad oedd unrhyw ganlyniad anfwriadol yn rhanbarth y môr mawr. Mae'r gwelliant hwn yn rhoi eglurder ynghylch ar gyfer ble yn ddaearyddol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi trwydded forol dybiedig, ac mae'r gwelliant yn mynd i'r afael â'm pryderon. Felly, rwy'n cefnogi'r gwelliant.*

*Gov 95 i Gov 98*

*30. Er bod y gwelliannau hyn yn dechnegol eu natur, maent yn ganlyniadol i Welliant Gov 94. Rwy'n cefnogi'r gwelliannau hyn."*

**19.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet ym mharagraff 32 o Femorandwm Rhif 3 ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan Senedd y DU, oherwydd bod y "gwelliannau technegol hyn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd o'r blaen i sicrhau bod y pwerau'n gweithio i Gymru."

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4)

**20.** Mae paragraff 8 o Femorandwm Rhif 4 yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y gwelliannau a ganlyn:

- Gwelliant Rhif 56 sy'n diwygio cymal 46 (cymal 42 gynt, fel y'i cyflwynwyd) – "Fees for application for harbour orders"
- Gwelliant Rhif 359 sy'n diwygio cymal 110 (cymal 96 gynt, fel y'i cyflwynwyd) – "Commencement and transitional provision"

**21.** Mae cymal 46(4) a (5) yn darparu pŵer newydd i Weinidogion Cymru i osod ffioedd mewn rheoliadau ar gyfer ceisiadau am Orchymyn Diwygio Harbwr. Mae cymal 46(2) yn diwygio paragraff 7(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964 er mwyn dileu'r gofyniad presennol fod rhaid i ffi gyd-fynd â chais am Orchymyn Diwygio Harbwr, gan fod hyn bellach i'w gynnwys mewn rheoliadau.

**22.** Mae cymal 110(1)(x) yn darparu bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i gychwyn cymal 46(2) ar ddiwrnod a bennir ganddo fel y nodir mewn rheoliadau. Mae cymal 46(6) a (7) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gadw pwerau presennol i godi ffioedd o dan Ddeddf Harbyrau 1964 hyd nes y gwneir rheoliadau ffioedd newydd ac y cychwynnir cymal 46(2).

**23.** Mae gwelliant 359 y Llywodraeth yn addasu trefniadau cychwyn cymal 46 fel na fydd diddymu pwerau codi ffioedd presennol yn Neddf Harbyrau 1964 ond yn cael effaith yng Nghymru pan fydd rheoliadau ffioedd newydd, sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru, yn

dod i rym. Felly, Gweinidogion Cymru sy'n rheoli pryd y cychwynnir y pwerau codi ffioedd newydd yng Nghymru. O'r herwydd, nid oes angen cymal 46(6) a (7) mwyach ac effaith gwelliant 56 y Llywodraeth yw hepgor yr is-adrannau hyn o'r Bil.

**24.** Er bod gwelliant 359 y Llywodraeth yn cyflwyno darpariaethau cychwyn gwahanol, mae'r effaith yn dal i olygu bod Gweinidogion Cymru yn gallu codi ffi am gais am Orchymyn Diwygio Harbwr o dan y drefn bresennol, o dan Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964, hyd nes y byddant yn gwneud rheoliadau newydd, a bod y rheoliadau hynny'n dod i rym.

### Barn yr Ysgrifennydd Cabinet

**25.** Mae paragraff 16 o Femorandwm Rhif 4 yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Cynllunio a Seilwaith:

> *"Ystyrir bod y cynigion yn dderbyniol gan y byddent yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gadw pwerau i godi ffioedd ar gyfer ceisiadau Gorchymyn Harbwr o dan ddarpariaethau presennol yn Neddf Harbyrau 1964 hyd nes y byddant yn gwneud rheoliadau ffioedd newydd ac y daw'r rheoliadau hyn i rym."*

## Ein barn ni

Yn ein Hadroddiad ar y Memorandwm cyntaf a Memorandwm Rhif 2 ar y Bil hwn, gwnaethom godi pryderon ynghylch sawl mater. Rydym wedi cynnwys gohebiaeth oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pryderon hynny.

Un o'r prif feysydd oedd y cynnig i ddileu gofynion cyn ymgeisio penodol ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan gynnwys y rhai yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi ceisio sicrwydd gan Weinidog Tai a Chynllunio Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu ynghylch goblygiadau posibl y cynigion o ran y broses ymgynghori cyn ymgeisio, ac y gallai hyn arwain at sefyllfa lle nad yw'r broses ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru a'r broses ar gyfer Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol Cymru yn cyd-fynd â'i gilydd.

O ran Memoranda 3 a 4, rydym yn cytuno â safbwynt yr Ysgrifennydd Cabinet fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y darpariaethau. Ni allwn argymell, ar hyn o bryd, fod y Senedd yn cytuno i roi cydsyniad, gan fod materion y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd, fel y nodir yn ein Hadroddiad cyntaf.

# Atodiad 1 – Gohebiaeth oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-1879-25

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddClimate@senedd.wales

Copïau at: Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

11 Awst 2025

Annwyl Llyr,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol[1] ar gyfer y Bil Cynllunio a Seilwaith. Rwyf wedi nodi isod fy safbwynt mewn perthynas â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

**Proses cyn ymgeisio Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs)**

Rwy'n deall y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor a'r rhanddeiliaid sydd wedi ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r gwelliannau arfaethedig i'r broses cyn ymgeisio ar gyfer NSIPs.

Mae ymgysylltu cyn ymgeisio â'r holl randdeiliaid yn rhan hanfodol o gydsynio, gan sicrhau bod ein datblygiadau yn cael eu llywio mewn ffordd sy'n ystyried anghenion cymunedau a'n hamgylchedd. Mae'r ddeddfwriaeth a osodais i weithredu Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn dangos fy ymrwymiad i gael system gadarn sy'n sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill yn ymwneud yn llawn â'r datblygiadau ym mhob cam o'r broses.

Mae'r darpariaethau perthnasol yn y Bil Cynllunio a Seilwaith yn ymwneud â'r broses ar gyfer NSIPs o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ac nid ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, lle mae datblygiad yng Nghymru, rydym am sicrhau bod y broses yn dechrau yn yr un modd. O ystyried y potensial ar gyfer effeithiau negyddol, ysgrifennais at Lywodraeth y DU ar y gwelliannau hyn yn ceisio sicrwydd ar

ymgysylltu cyn ymgeisio. Ymatebodd Matthew Pennycook AS, y Gweinidog Tai a Chynllunio, ar 2 Mehefin 2025. Mae'r llythyr hwn yn darparu'r rhesymeg dros y newid ac yn cadarnhau bod ymgysylltu ac ymgynghori cychwynnol yn parhau i fod yn ganolog i'w dull gweithredu, sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn eu datganiad ysgrifenedig: https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2025-0423/hcws594.

[1] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Rhif 2).

Er ein bod wedi defnyddio mecanwaith gwahanol yng Nghymru i sicrhau bod ymgysylltu cyn ymgeisio yn arwain at geisiadau o safon, rwy'n sicr y bydd yr holl randdeiliaid yn parhau i ddylanwadu ar geisiadau yn gynnar. Ar y sail hon, rwy'n fodlon cefnogi'r ddarpariaeth.

**Materion trawsffiniol NRF**

Rwy'n ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid am oblygiadau trawsffiniol posibl yr NRF. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU i ystyried gwelliannau i'r Bil i liniaru hyn.

**Rhychwant tiriogaethol HRA**

Mae fy swyddogion wedi codi'r mater o rychwant tiriogaethol Atodlen 4 gyda Llywodraeth y DU a gynghorodd fod hyn yn hepgoriad. Maent wedi cadarnhau y byddant yn diwygio iteriad nesaf y Nodiadau Esboniadol ar gyfer Atodlen 4 i wneud yn glir, fel gyda'r darpariaethau eraill yn Rhan 3, mai Cymru a Lloegr yw rhychwant tiriogaethol yr Atodlen, ond mae'n gymwys i Loegr yn unig.

Rwyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn at Mike Hedges MS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad gan y gallai'r materion hyn hefyd fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning